YMDDIRIEDOLAETH IEUENCTID
HEDDLU DE CYMRU

Mae grantiau Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru wedi cefnogi ystod eang o brosiectau gan gynnwys coginio, sesiynau chwaraeon, clybiau ieuenctid, gwersi DJ, gweithdai barddoniaeth, adeiladu parc sglefrio a theithiau preswyl yn ystod y gwyliau.

Rhoi Sylw i Brosiect – Grŵp Sefydliad Gellideg – Tîm Ieuenctid Gellideg, Trefechan a Thwyncarmel

Mae'r grant wedi'i ddefnyddio i gefnogi gwaith parhaus tîm ieuenctid Grŵp Sefydliad Gellideg, drwy ei alluogi i gefnogi'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i ymddygiad gwrthgymdeithasol i gymryd rhan mewn gwibdeithiau, cyfleoedd, tripiau, teithiau preswyl a gweithdai.

Cafodd y sefydliad £6,000 o gyllid sydd wedi galluogi pobl ifanc y gymuned i ymweld â llefydd newydd a chael profiadau bywyd ysbrydoledig na fyddent ar gael iddynt fel arall. Nod y prosiect yw helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau bywyd mwy cadarnhaol, meithrin cydberthnasau gwell a gwella eu llesiant meddyliol a chorfforol.

Yn ystod y gweithgareddau hyn, mae'r tîm ieuenctid yn trafod problemau â'r bobl ifanc ac yn mynd i'r afael â'u pryderon. Mae'r tîm ieuenctid yn gwahodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'r lleoliad i drafod y problemau hyn yn fanylach â'r bobl ifanc, gyda'r nod o fynd ati, gyda'n gilydd, i greu cymuned gydlynol gryfach a mwy diogel.

South Wales Police

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Rhowch arian i Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru

JustGiving

Mae Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru yn Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif. 1133057.
Cyfeiriad cofrestredig: Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu, Pencadlys Heddlu De Cymru, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU